YR EGLWYS yng NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

**Corff Cynrychiolwyr Yr Eglwys yng Nghymru**
**The Representative Body of The Church in Wales**

# Gwahanu gwastraff ar gyfer ailgylchu a thynhau rheoliadau gwastraff bwyd o 6 Ebrill 2024

## Newidiadau i gyfraith ailgylchu

Mae'r nodyn hwn yn tynnu sylw at ofynion cyfreithiol eich eglwys mewn perthynas ag ailgylchu gwastraff.[1]

Fel eglwys, efallai eich bod eisoes yn ailgylchu cymaint o wastraff â phosibl, yn ogystal â cheisio bod yn greadigol wrth ailddefnyddio eitemau'n ddiogel yn ystod gweithgareddau'r eglwys, megis ar gyfer gweithgareddau cylchoedd chwarae.

O 6 Ebrill 2024, mae cyfraith ailgylchu annomestig yn newid yng Nghymru: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=42201

**Bydd gofyn i bob eglwys a neuadd eglwys** – yn ogystal ag adeiladau annomestig eraill – fod yn fwy trylwyr wrth ddidoli gwastraff i'w ailgylchu er mwyn galluogi mwy o ailgylchu ac osgoi'r posibilrwydd o groeshalogi.

[1] Mae rhan o'r ddogfen hon yn seiliedig ar nodyn cyngor gan Cytûn, Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, gan ddiolch am gael ei atgynhyrchu.

# Sut bydd y newidiadau yn effeithio ar eich eglwys

O 6 Ebrill 2024, bydd angen i berchennog/rheolwr y safle neu drefnydd gweithgaredd ar y safle, rannu deunydd ailgylchu i chwe chynhwysydd ailgylchu gwahanol,.

# Y chwe chynhwysydd gwahanol:

**1. Gwydr**

**2. Plastig, metel a chartonau a deunyddiau pecynnu tebyg eraill (sylwer: mae gwaharddiad ar gyflenwi llawer o eitemau plastig untro ers 30 Hydref 2023)**

**3. Papur a cherdyn**

**4. Gwastraff bwyd (gweler ymhellach isod)**

**5. Cyfarpar trydanol bach sydd *heb ei werthu**

**6. Tecstilau sydd *heb eu gwerthu**

*Ystyr "heb eu gwerthu" yw cynnyrch defnyddiwr sydd heb gael ei ddefnyddio. I ddechrau, mae'n annhebygol y bydd Categorïau 5 a 6 uchod yn berthnasol i eglwysi (neu i siopau elusen) sy'n gwerthu nwyddau ail-law. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cymhwyso'r gofyniad ailgylchu i decstilau o bob math ymhen tair blynedd, a phob offer trydanol bach ymhen dwy flynedd, felly efallai y bydd eich eglwys yn dymuno paratoi at y newid hwn yn awr.

> *Noder:* **Bydd yn anghyfreithlon anfon gwastraff o unrhyw un o'r categorïau uchod i safleoedd llosgi neu dirlenwi, a bydd yn anghyfreithlon anfon gwastraff pren i safleoedd tirlenwi (er y bydd llosgi yn dderbyniol).**

Mae'r diffiniadau llawn ar gyfer y chwe chategori, fel y nodir yn y rheoliadau, wedi'u cynnwys fel atodiad isod. Mae canllawiau pellach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/newidiadau-i-ailgylchu-yn-y-gweithle-canllawiau-ar-gyfer-gweithleoedd?_gl=1*1d4k84g*_ga*ODg5MTE3NDguMTcwNDcwNjc0MQ..*_ga_L1471V4N02*MTcwNTkxODM1OC4xMy4xLjE3MDU5MjI4NjQuMC4wLjA.&_ga=2.154764664.1181652545.1705914697-88911748.1704706741.

# Gall rhoi gwastraff anghywir yn y cynhwysydd anghywir arwain at hysbysiad cosb benodedig (dirwy)

Gall awdurdod lleol godi dirwy o'r fath, ond bwriad Llywodraeth Cymru yw atgoffa ac addysgu yn gyntaf cyn cosbi a dirwyo. Felly, gan fod llawer o adeiladau eglwysig yn safleoedd amlddefnydd rhaid i'w rheolwyr a'u hymddiriedolwyr sicrhau bod pob defnyddiwr yn ymwybodol o'r rheoliadau newydd.

Rhaid parhau i waredu gwastraff peryglus (fel batris, toddyddion, plaleiddiaid ac ati) yn ddiogel, a'u cadw ar wahân i'r cynwysyddion ailgylchu.

# Diffinio gwastraff cartref a masnachol

Mae'r rhan fwyaf o addoldai (gan gynnwys neuaddau eglwysi a chapeli ac ati a ddefnyddir yng nghyswllt yr addoldy) yn gymwys i gael casglu gwastraff am ddim o dan Reoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012. Ar gyfer eglwysi, y tebygrwydd yw mai'r unig eithriadau i hyn fydd bwytai neu siopau eglwysig sy'n gweithredu ar sail fasnachol, a chanolfannau preswyl, sydd angen trefnu casgliadau gwastraff masnachol. Mae rheoliadau 2012 yn dal mewn grym yng Nghymru.

Fodd bynnag, bydd angen i hyd yn oed y safleoedd hynny sy'n gymwys i gasglu gwastraff cartref am ddim wahanu eu gwastraff yn chwe chynhwysydd fel y disgrifir uchod. Mater i'r awdurdod lleol fydd penderfynu sut mae'r rhain yn cael eu casglu – boed yn rhad ac am ddim gan ei wasanaeth casglu gwastraff masnachol, neu (fel yn y rhan fwyaf o achosion ar hyn o bryd) gan ei gasgliad gwastraff cartref, a sut i ymdrin â'r gwahaniaethau mewn gofynion gwahanu rhwng eiddo domestig (cartrefi) a'r rheoliadau newydd hyn.

Gall y bydd awdurdodau lleol yn cysylltu ag eglwysi i geisio eu trosglwyddo i'w gwasanaeth casglu gwastraff masnachol o fis Ebrill 2024. Os felly, **dylai eglwysi sicrhau y bydd y casgliad hwn yn parhau i fod yn rhad ac am ddim, ac os bydd angen, dylid cyfeirio'r awdurdod lleol at reoliadau 2012**.

## Tenantiaid a llogwyr adeiladau

Mae llawer o eiddo eglwysig wedi ei osod, yn rhannol neu yn gyfangwbl, i denantiaid. Mae'r Côd yn dweud *Ar gyfer safle ym meddiant busnesau lluosog … lle mae un contract ar gyfer casglu gwastraff a reolir gan y perchennog neu asiantaeth rheoli cyfleusterau, byddem yn disgwyl i'r cytundeb tenantiaeth gynnwys gofyniad i'r partïon gydymffurfio â'r gofynion gwahanu* (para 5.11). Nid yw'r Côd yn manylu ynghylch Cytundebau Llogi a'u tebyg, a ddefnyddir gan lawer o fangreoedd eglwysig. Ond mae'r egwyddor yn y Côd yn eglur: *Rydych yn gyfrifol am yr holl wastraff sy'n cael ei gyflwyno i'w gasglu o'ch eiddo. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wastraff a gynhyrchir gan staff, ymwelwyr a chontractwyr.* (para 7.12). Golyga hyn y bydd **angen trafod yn fanwl gyda holl ddefnyddwyr eich adeiladau**, ac fe all y byddwch am ysytyried cynnwys cymalau ynghylch gwahanu gwastraff yn eich cytundebau llogi.

## Biniau a chynwysyddion ar gyfer gwastraff

Dywed y Côd Ymarfer *Yn y man lle'r ydych yn cyflwyno eich gwastraff i'w gasglu (er enghraifft, casglu ymyl y ffordd), er mwyn cydymffurfio â'r gofynion gwahanu bydd*

*angen cynhwysydd ar wahân arnoch ar gyfer pob ffrwd wastraff ailgylchadwy. Nid yw hyn yn wir mewn perthynas â biniau mewnol ar gyfer meddianwyr, staff, ymwelwyr ac ati gan y cydnabyddir na fydd hyn yn ymarferol nac yn bosibl mewn rhai amgylchiadau. Ystyrir ei bod yn arfer da darparu cynwysyddion ar wahân ar gyfer pob ffrwd wastraff ailgylchadwy lle bynnag y cesglir gwastraff ar eich eiddo.* (para 7.14-7.15).

Mae'r Côd yn gosod y gofynion canlynol ar gyfer y math o gynwysyddion gellir eu defnyddio i gyflwyno gwastraff i'w gasglu: *Gall y cynwysyddion hyn fod yn finiau, yn fagiau, yn focsys, yn sgipiau neu'n fath arall o gynhwysydd fel y bo'n briodol, gan ystyried natur y gwastraff a gofynion eich casglwr gwastraff. Er enghraifft, efallai na fydd bagiau plastig hyblyg yn addas ar gyfer gwahanu eitemau ag ymylon miniog, neu sy'n drwm iawn. Mae'n dderbyniol defnyddio cynwysyddion sydd wedi'u hisrannu'n fewnol gan rwystr ffisegol parhaol, er enghraifft bin gyda dwy neu fwy o adrannau sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol. Mae'n rhaid i'r cynwysyddion a ddefnyddir fod yn ddigon gwydn i gynnal y gwahaniad gofynnol wrth i'r gwastraff gael ei drin a'i reoli'n ddiweddarach. Argymhellir bod adrannau mewn cynhwysydd wedi'u gwneud o adeiladwaith solet yn hytrach na phlastig hyblyg sy'n debygol o rwygo'n agored, sy'n cynyddu'r risg y bydd y cynnwys yn cymysgu â ffrydiau gwastraff eraill. Pan fydd y ffrydiau gwastraff a gyflwynir ar wahân yn cael eu casglu, mae'n rhaid eu cadw ar wahân a heb eu cymysgu â ffrydiau eraill, nac unrhyw wastraff arall* (para 7.3-7.4). Ceir hefyd arweiniad manwl ynghylch defnyddio "bagiau goroesi" (a chyfyngiadau ar suyt y gellir eu defnyddio – para 7.5). Mae'r Côd yn ychwanegu *O gofio y gallai fod angen storio cynwysyddion gwastraff mewn lleoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd, ystyrir ei bod yn arfer gorau defnyddio cynwysyddion y gellir eu cloi a sicrhau bod y rhain yn cael eu cadw dan glo i leihau'r risg o halogi damweiniol neu fwriadol* (para 7.8), ac yn nodi fod angen labelu'r cynwysyddion yn eglur ar gyfer eu casglu. Mae'n debygol y bydd awdurdodau lleol a chasglwyr gwastraff gwahanol yn gwneud gofynion ychydig yn wahanol i'w gilydd, a dylai **rheolwyr ac ymddiriedolwyr eiddo geisio cyngor eu casglwr gwastraff**, os nas darparwyd eisoes.

**Biniau allanol**: Dywed y Côd *nid oes rhaid i sbwriel a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ... gan amlaf o strydoedd, palmentydd a mannau agored sy'n hygyrch i'r cyhoedd, gael eu gwahanu wrth eu cyflwyno i'w casglu. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb ac arfer da, argymhellir bod biniau sbwriel ar wahân ar gyfer eitemau ailgylchadwy yn cael eu darparu mewn unrhyw leoliadau lle mae yna finiau sbwriel fel y gall Awdurdodau Lleol, lle bynnag y bo'n bosibl, drefnu i sbwriel gael ei ailgylchu*. (para 5.7). Ond lle darperir bin mewn gardd eglwysig, mynwent, lle chwarae neu fan tebyg, a'r gwastraff wedyn yn cael ei gynnwys yng nghasgliad gwastraff yr eglwys (yn hytrach na chael ei gasglu'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol o fan cyhoeddus), mae'r cynnwys hwnnw yn ddarostyngedig i'r gofynion i'w wahanu.

# Gwastraff bwyd

Bydd y gofyniad cyfreithiol i wahanu ac ailgylchu gwastraff bwyd yn berthnasol i safle sy'n cynhyrchu 5kg neu fwy o wastraff bwyd yr wythnos (os byddwch yn cynhyrchu

llai, bydd yn gyfreithiol rhoi gwastraff bwyd yn y ffrwd wastraff gyffredinol, na ellir ei ailgylchu). Fodd bynnag, mae'n arfer da gwahanu ac ailgylchu pob gwastraff bwyd, hyd yn oed symiau bach, a gellir casglu hyn o eglwysi yn rhad ac am ddim fel gwastraff cartref. Felly, byddem yn annog eglwysi i wneud hynny.

## Gwahardd rhoi gwastraff bwyd i lawr y sinc neu i’r draen cyhoeddus

Yn ogystal, **bydd gwaharddiad ar waredu unrhyw wastraff bwyd i lawr y sinc neu i mewn i’r draen neu garthffos gyhoeddus**. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i dywallt bwyd yn uniongyrchol i'r sinc neu'r draen ond mae'n golygu na chaniateir defnyddio offer fel tanc malu, treulwyr ensymau neu ddad-ddyfrwr. Dylai eglwysi sicrhau bod defnyddwyr eu safleoedd yn ymwybodol o hyn. Nid yw’n orfodol i chi dynnu allan unrhyw offer o'r fath sydd gennych, ond mae'n debyg ei fod yn syniad da ei ddatgysylltu neu ei dynnu allan fel nad oes modd ei ddefnyddio ar ddamwain. Bydd rhyddhau gwastraff bwyd i'r draeniau neu'r carthffosydd cyhoeddus yn drosedd, ac os bydd hyn yn digwydd, gall y safle neu'r gweithredwr dan sylw wynebu hysbysiad cosb benodedig.

# Atodiad

Diffiniadau o'r mathau o wastraff (nid oes unrhyw wastraff peryglus wedi’i gynnwys yma gan fod yn rhaid ei waredu ar wahân)

## 1. Gwydr

• Poteli gwydr a ddefnyddir i becynnu

• Jariau gwydr a ddefnyddir i becynnu

## 2. Cartonau ac ati o blastig a metel

a) Cartonau a phecynnau cyfansawdd tebyg o ffibr, sef deunydd pecynnu, sydd wedi'i wneud o neu ffibrau papur neu bapur bwrdd, wedi'i lamineiddio â phlastig polythen dwysedd isel neu bolypropylen, ac a allai hefyd fod â haenau o ddeunyddiau eraill, i ffurfio uned sengl na ellir ei gwahanu â llaw, wedi'i gyfyngu i’r canlynol:

• Cartonau

• Cwpanau papur gyda haen blastig bolypropylen neu bolythen dwysedd isel

• Cynwysyddion papur caled

b) Metel:

- Ffoil alwminiwm
- Hambyrddau bwyd alwminiwm
- Tiwbiau alwminiwm
- Erosolau dur ac alwminiwm
- Capiau a chaeadau poteli a jariau o ddur ac alwminiwm
- Caniau a thuniau dur ac alwminiwm

c) Plastig

- Deunydd pecynnu plastig tereffthalad polyethylen crisialedig a thereffthalad polyethylen amorffaidd sy'n cynnwys potiau, tybiau, hambyrddau, caeadau caled a lled-galed a chwpanau clir ac eithrio lle mae'r plastig yn cynnwys pigment carbon du fel nad yw'n ganfyddadwy yn is-goch agos
- Poteli plastig tereffthalad polyethylen amorffaidd ac eithrio lle mae'r plastig yn cynnwys pigment carbon du fel nad yw'n ganfyddadwy yn is-goch agos
- Polyethylen dwysedd uchel a deunydd pecynnu polyethylen dwysedd isel sy'n cynnwys potiau, tybiau, hambyrddau a chaeadau caled a lled-galed ac eithrio lle mae'r plastig yn cynnwys pigment carbon du fel nad yw'n ganfyddadwy yn is-goch agos
- Polyethylen dwysedd uchel a photeli plastig polyethylen dwysedd isel, pympiau a chliciedau ac eithrio lle mae'r plastig yn cynnwys pigment carbon du fel nad yw'n ganfyddadwy yn is-goch agos
- Deunydd pecynnu plastig polypropylen estynedig a pholypropylen sy'n cynnwys potiau, tybiau, hambyrddau, caeadau caled a lled-galed a chwpanau clir ac eithrio lle mae'r plastig yn cynnwys pigment du carbon fel nad yw'n ganfyddadwy yn is-goch agos
- Tiwbiau pecynnu plastig polypropylen a pholyethylen ac **eithrio**: lle maent yn llai na 50x50mm, lle maent wedi cynnwys cynhyrchion a ddefnyddir mewn gwaith adeiladu, lle mae ganddynt haen fetel, neu lle maent yn blastig amryfonomer
- Poteli plastig polypropylen, pympiau a chliciedau ac eithrio lle mae'r plastig yn cynnwys pigment carbon du fel nad yw'n ganfyddadwy yn is-goch agos

## 3. Papur a cherdyn

Pob papur a chardfwrdd, **ac eithrio**:

Deunydd pecynnu cyfansawdd ffibr, sef deunydd pecynnu sydd wedi'i wneud o fwrdd papur neu ffibrau papur, wedi'i lamineiddio â phlastig, ac a allai hefyd fod â haenau o ddeunyddiau eraill, i ffurfio uned sengl na ellir ei gwahanu â llaw

Llyfrau clawr caled

Amlenni leinin polyethylen wedi'u padio

Papur a cherdyn sy'n cynnwys gliter neu ffoil

Papur a cherdyn wedi'i halogi â bwyd, paent, olew neu saim

Papur a cherdyn sydd wedi'u lamineiddio

Tywelion papur, hancesi papur, weips gwlyb, papur cegin

Cardiau crafu

Papur wedi’i rwygo

Sticeri a nodiadau gludiog

Derbyniadau til

Papur wal

Papur gwrthsaim, cwyr, a silicon

## 4. Gwastraff bwyd

Pob gwastraff bwyd (gydag eithriadau prin iawn)

## 5. Cyfarpar trydanol ac electronig bach gwastraff heb ei werthu

Pob cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach heb ei werthu (fel y'i diffinnir uchod)

## 6. Tecstilau heb eu gwerthu

• Dillad

• Tecstilau sydd ddim yn ddillad, yn cynnwys carpedi a theils carped, tecstilau hamdden (fel pebyll a tharpolinau), matresi, matiau, defnyddiau’r tŷ (megis llenni, cynfasau gwely, carthenni, duvets, clustogau, tywelion), isgarpedi

• Deunydd pecynnu wedi'i wneud o decstilau